Annwyl Madam

Mewn ymateb i'r cais am sylwadau ar sefydlu Sefydliad Heddwch yng Nghymru hoffwn gynnig y sylwadau canlynol i'ch sylw.

Ers dyddiad ei chorffori yn 1884 bu i Eglwys Annibynnol Minny Street, un o eglwysi anghydffurfiol 'mwyaf' (314 o aelodau) Cymru, draddodiad o heddychiaeth radical. Bu hynny yn arbennig o amlwg yn ystod yr Ail Ryfel Byd o dan weinidogaeth y Parchedig R J Jones. Erys Efengyl Heddwch a Chymod yn sail a chanolbwynt gwaith yr eglwys o dan weinidogaeth ei gweinidog presennol, y Parchedig Owain Llyr Evans. Cydlynir pob gweithgaredd sy'n ymwneud â Thystiolaeth Dinasyddiaeth Gristnogol Eglwys Minny Street gan ei Chylch Dinasyddiaeth. Cynnwys y Cylch gynrychiolaeth o aelodau'r eglwys ar draws ystod oedran ei chynulleidfa.

Yn sgil cyhoeddiad y Cynulliad Cenedlaethol ei bod yn cychwyn ymgynghoriad cyhoeddus (19 Hydref 2011) ar y posibilrwydd o sefydlu Sefydliad Heddwch yng Nghymru bu'r Cylch Dinasyddiaeth yn trafod y mater ac yn gwrando ar farn aelodau'r eglwys. Yn dilyn y drafodaeth honno, datgan Cylch Dinasyddiaeth Eglwys Minny Street bellach ei fod am ymuno â'r Ganolfan Gymreig Materion Rhyngwladol, Cymdeithas y Cymod, Cynefin y Werin ac CND Cymru i "*alw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ymchwilio i'r posibilrwydd ac i edrych pa mor ymarferol fyddai i Gymru gael Sefydliad Heddwch i edrych ar heddwch a hawliau dynol, tebyg i'r sefydliadau a gefnogir gan lywodraethau gwladwriaethau yn Fflandrys, Catalonia a mannau eraill yn Ewrop."*

Efengyl Cariad, Cymod a Heddwch ein Harglwydd Iesu Grist yw prif symbylydd ein safiad. Nawr, fel erioed, gwelwn y 'gwledydd mawr' a 'phwysig' yn ymateb yn betrusgar i ddigwyddiadau rhyngwladol. Yn gyffredinol, credant mai trwy wneud cytundebau masnachol ac ariannol â'i gilydd y sicrheir heddwch; pan na fydd hyn yn gweithio a llwyddo, dibynnir ar ddulliau trais, rhyfel a gormes i oroesi. Ar y gorau, heddwch brau yw heddwch o'r fath, heddwch heb seiliau a heddwch di-asgwrn cefn. Dengys hanes wendid y fath heddwch. Dibynna Gwir Heddwch ar rywbeth llawer dyfnach na chytundebau masnachol ac ariannol. Delfryd ysbrydol yw Gwir Heddwch.

Gellid dadlau mai gwlad fechan yw Cymru, heb na chyfoeth na dylanwad. Ond onid ei chryfder ar hyd y canrifoedd yw ei hargyhoeddiad yn nerth Heddwch a gwerth Ewyllys Da? Ffrwyth ein Cristnogaeth Gymreig yw'r argyhoeddiad hwn. Cymro yn caru ei wlad a sefydlodd Neges Heddwch ac Ewyllys Da Plant Cymru, ac 'roedd sêl a dycnwch Gwilym Davies dros barhad y Neges honno yn brawf fod ei gariad at ei wlad yn ddarostyngedig i gariad rhagorach – cariad at gyd-ddyn – a'r cariad hwnnw'n tyfu o'i gariad at Dduw; y Duw a'i amlygodd ei hun yn Iesu Grist.

Gyda gorchymyn ein Harglwydd Iesu Grist ar i ni garu ein gilydd yn ein harwain nid rhyfedd, felly, ein bod yn datgan ein cefnogaeth gref i'r alwad am ystyriaeth ar sefydlu Sefydliad Heddwch yng Nghymru. Ceir sefydliadau tebyg mewn nifer o wledydd eraill gan gynnwys Ffindir, Fflandrys a Chatalonia, ynghyd â rhai o daleithiau'r UDA. Ynghyd â threfnu hyfforddiant ac ymchwil i faterion heddwch, y farchnad arfau a gwariant milwrol, bydd nifer o'r sefydliadau hyn, yn archwilio effaith polisïau a gweithrediadau llywodraethau ar heddwch a chyfiawnder – o fewn y gymdeithas, yn ogystal ag yn genedlaethol a rhyngwladol. Yn benodol, ac fel enghraifft, prif ffocws gwaith Sefydliad Heddwch Fflandrys yw ymchwilio i

effeithiau penderfyniadau gwleidyddol a rôl Fflandrys yng nghyd-destun heddwch rhyngwladol. Bydd Senedd Fflandrys yn ymgynghori a chymryd cyngor y Sefydliad i ystyriaeth wrth benderfynu ar bolisïau perthnasol. Oni fyddai corff tebyg yng Nghymru, nid yn unig yn dal yn driw i egwyddorion heddychol a Christnogol ein gwlad, ond hefyd yn creu meddylfryd hollol wahanol oddi mewn i'n cymdeithas? Mentrwn gynnig, pe byddai holl oblygiadau penderfyniadau megis adeiladu'r Academi Filwrol wedi cael eu gosod o flaen ein gwleidyddion a'r cyhoedd, byddai'r ymateb wedi bod yn dra gwahanol. Ni fyddai'r drafodaeth wedi canolbwyntio cymaint ar y nifer o swyddi a ellid eu creu, ond ar effaith y datblygiad ar bob agwedd o'n diwylliant, ein heconomi a'n hamgylchedd a delwedd Cymru yn y byd. Credwn hefyd, gydag argyhoeddiad Cristnogol, y byddai Sefydliad Heddwch o'r fath yn chwarae rôl gwbl flaengar mewn addysg ac astudiaethau heddwch, yn hyrwyddo gwerthoedd di-drais ac adeiladu cysylltiadau rhyngwladol.

A ninnau'n byw mewn cyfnod erchyll o greulondeb ac o gasineb rhwng dyn â'i gyd-ddyn, a gwlad yn erbyn gwlad safwn, fel cynulleidfa o Ddilynwyr Crist, yn gadarn a sicr ein cred nad trwy ymladd a lladd y daw heddwch, rhyddid a chyd-fyw i'n byd. Mynna hyn newid meddylfryd – yn wleidyddol, yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol ac yn bersonol. Nid yw hyn yn hawdd! Gall sefydlu Sefydliad Heddwch tebyg i'r hyn a geir mewn gwledydd eraill fod o gymorth mawr yn y newid hwn. Ein braint, a'n dyletswydd, fel Eglwys Gristnogol yw cefnogi'r alwad ar i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gychwyn proses o ymchwilio a rhoi ystyriaeth dreiddgar i'r posibilrwydd o sefydlu, yn ein gwlad, "***Sefydliad Heddwch i edrych ar heddwch a hawliau dynol, tebyg i'r sefydliadau a gefnogir gan lywodraethau gwladwriaethau yn Fflandrys, Catalonia a mannau eraill yn Ewrop."***

Yr eiddoch yn gywir

Margaret Davies

Cydlynydd Cylch Dinasyddiaeth, Eglwys Annibynnol Minny Street